CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Ymddiriedolwyr Cronfa Addysg Bellach Sir Ddinbych | Dyddiad: | Dydd Mercher, 18 Ebrill 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824706204 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **YMDDIRIEDOLWYR CRONFA ADDYSG BELLACH SIR DDINBYCH, DYDD MAWRTH, 24 EBRILL 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

### 3 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Derbyn cofnodion cyfarfod Ymddiriedolwyr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 27ain Medi 2011 [copi'n amgaeëdig].

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**5 DINBYCH, LON GANOL – YMGYNGHORI AR DDYFODOL Y SAFLE** (Tudalennau 5 - 8)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd E W Williams (copi'n amgaeëdig) sy'n rhoi manylion yr ymarfer ymgynghorol ar ddyfodol Safle Lôn Ganol, Dinbych.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Pauline Dobb | Paul Marfleet |
| Hugh Evans | David Thomas |
| Sharon Frobisher | Julian Thompson-Hill |
| Morfudd Jones | Eryl Williams |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**YMDDIRIEDOLWYR CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Sir Ddinbych a gynhaliwyd am 2.10pm ar ddydd Mawrth 27 Medi 2011, yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr P A Dobb, H H Evans, S Frobisher, M M Jones, P J Marfleet, J Thompson-Hill ac E W Williams

**Sylwedyddion:** Y Cynghorwyr W L Cowie, M Ll Davies, G C Evans a T R Hughes.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Dros Dro Llywodraethu Corfforaethol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Oedolion a Busnes, Pennaeth Moderneiddio Addysg, Rheolwr Uned Asedau (Moderneiddio Addysg), Prif Swyddog Cyfreithiol (A S Jones) a'r Cydgysylltydd Craffu (yn cymryd cofnodion).

**1) Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd D A J Thomas

**2) Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant yn yr eitemau busnes dan ystyriaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd Pennaeth Dros Dro Llywodraethu Corfforaethol, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Pennaeth Moderneiddio Addysg, y penderfynwyd, ar ôl cael arweiniad gan amrywiol gyrff yn cynnwys y Comsiwn Elusennau a chan fod Cyngor Sir Ddinbych nawr yn ymddiriedolwr presennol y tir sy'n cynnwys safle cyn-Ysgol Sirol Dinbych yn Lôn Ganol, Dinbych (tir a oedd yn elusen unigol dan ymbarél Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Sir Ddinbych), y dylai'r Cabinet alw cyfarfod i ddibenion yr Ymddiriedolaeth Elsuennol i alluogi cychwyn proses ymgynghori ar ddyfodol safle Lôn Ganol. Ar ôl cynnal y cyfarfod cyntaf a chychwyn y broses ymgynghori, byddai'r Ymddiriedolwyr 'presennol' yn goruchwylio'r broses ymgynghori, gweithredu unrhyw argymhellion a fyddai'n deillio, ac ystyried penodi Ymddiriedolwyr newydd i ddibenion ymgymryd â materion yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

Hysbyswyd yr Aelodau, gan eu bod yn cyfarfod yn eu rôl fel Ymddiriedolwyr, bod angen iddynt benodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 3) Penodi Cadeirydd

Enwebwyd y Cynghorydd H H Evans a'i eilio i lywyddu yn y cyfarfod. Ni chafwyd enwebiad arall.

***Penderfynwyd:**- Penodi'r Cynghorydd H H Evans yn gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.*

Hysbyswyd yr Ymddiriedolwyr bod yr wybodaeth a oedd yn cael ei hystyried yn y cyfarfod ar hyn o bryd yn gyfrinachol. Felly:

***Penderfynwyd:** Dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf, yn cael ei datgelu iddynt.*

## 4) Dinbych, Lôn Ganol – Ymgynghoriad Arfaethedig ar Ddyfodol y Safle

Cyflwynodd y Pennaeth Moderneiddio Addysg yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) pwrpas yr hwn oedd gofyn am gymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr i ystyried dyfodol y safle. Wrth gyflwyno'r adroddiad, sicrhaodd y Pennaeth Moderneiddio Addysg yr Ymddiriedolwyr bod aelodau a oedd yn cynrychioli wardiau yn Ninbych wedi eu hysbysu o gynnwys yr adroddiad a oedd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn. Roedd aelodau Dinbych wedi nodi eu bod yn cytuno gyda'r camau arfaethedig a'u dymuniad i gymryd rhan yn y broses yn nes ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau etholedig a oedd yn arsylwi'r cyfarfod, dywedodd y Pennaeth Moderneiddio Addysg, pe byddai'r broses ymgynghori yn arwain at benderfyniad i werthu'r ased oherwydd nad oedd ei angen bellach ac os nad oedd unrhyw ddefnydd addysg iddo bellach, byddai holl dderbyniadau cyfalaf llai unrhyw gostau a achoswyd yn cael eu dal gan y Cyngor ar ran yr Ymddiriedolaeth nes byddai'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu sut dylid eu defnyddio. Pwysleiswyd ymhellach, pe byddai safle Lôn Ganol yn cael ei werthu, byddai angen buddsoddi enillion net y gwerthiant mewn cynllun elusennol newydd, i'w wneud gan y Comisiwn Elsuennau ar ôl cais gan yr Ymddiriedolwyr, a byddai ei amcanion mor agos ag y bo modd i rai'r Ymddiriedolaeth wreiddiol – ' gwella addysg i blant yn yr ardal'. Esboniwyd hefyd bod y Comisiwn Elusennau hefyd wedi dweud na fyddai modd defnyddio enillion y gwerthiant er budd unrhyw ysgol yr oedd gan y Cyngor Sir ddyletswydd statudol i'w darparu. Byddai unrhyw arian o werthu'r safle yn y dyfodol yn perthyn i'r Ymddiriedolaeth ac nid y Cyngor Sir.

Awgrymodd y Cynghorydd G C Evans i'r Ymddiriedolwyr y dylid cael esboniad o'r diffiniad '…plant yn yr ardal', gan fod yr Ysgol Sirol yn y gorffennol wedi bod o fudd i blant o ardal ehangach o lawer na thref Dinbych ei hunan. Roedd dalgylch yr hen Ysgol Sirol yn cynnwys pentrefi a phentrefannau pellach, rhai ohonynt nawr y tu allan i ffiniau Sir Ddinbych bresennol. Roedd o'r farn bod yr

Ymddiriedolwyr angen esboniad ar hyn cyn medrent benderfynu ar yr opsiynau ar gyfer y safle yn y dyfodol neu dderbyniadau cyfalaf a gafwyd o werthu'r safle yn y dyfodol. Gofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies bod yr Ymddiriedolwyr yn ystyried diogelu'r tŷ a oedd ar diroedd safle Lôn Ganol rhag ofn iddo gael ei ddymchwel.

Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr i'r Swyddogion gysylltu â'r Comisiwn Elusennau i ofyn am amserlen mewn perthynas â'r ymarfer ymgynghorol ynghyd ag unrhyw gamau a fyddai'n deillio, a gofyn am arweiniad ar greu unrhyw gyfansoddiad newydd a fyddai ei angen ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

Ar ôl trafodaeth fanwl, bu i'r Ymddiriedolwyr:

***<u>Benderfynu:-</u>***

***(a) cael cyfnod o ymgynghori ar ddyfodol safle Lôn Ganol, Dinbych, gyda'r llywodraethwyr a staff yr ysgolion yn y ddalgylch, unrhyw sefydliadau addysgol eraill yn y dref, aelodau lleol, deiliad y portffolio, Cyngor Tref Dinbych a thrwy gyhoeddi Datganiadau yn y Wasg a Datganiadau Cyhoeddus yn y Llyfrgell a'r Swyddfa Ddinesig;***

***(b) gofyn am gymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau o ran sylfaen a dull y broses ymgynghorol ac am arweiniad ar unrhyw gyfansoddiad newydd a fyddai ei angen ar gyfer yr Ymddiriedolaeth***

***(c)os, ar ôl y broses ymgynghori, byddai'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu mai'r peth gorau o safbwynt yr Ymddiriedolaeth fyddai gwerthu safle Lôn Ganol, dylai'r Ymddiriedolwyr wedyn wneud cais i'r Comisiwn Elusennau o ran llunio cynllun yn rhoi hawl gwerthu angenrheidiol i'r Ymddiriedolwyr***

***(ch) argymell bod aelodau Grŵp Ardal Aelodau Dinbych yn cael eu penodi fel ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth i ddibenion rheoli materion yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol ac, yn benodol, i ddibenion ystyried sut dylid defnyddio unrhyw enillion yn deillio o werthu safle Lôn Ganol dan y pŵer i werthu a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau,***

***(d) gofyn am esboniad o ddiffiniad yr 'ardal' a wasanaethwyd gan hen Ysgol Sir Dinbych ac o'r hon y byddai darpar fuddiolwyr yr Ymddiriedolaeth yn dod***

Daeth y cyfarfod i ben am 2.25pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag